Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

# Pleidleisio a gwneud eich penderfyniadau eich hunan




Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



Wae angen i'n lleisiau ni oll gael eu clywed.

Mae hynny'n dda i'n lles ni.



Mae cael ein lleisiau wedi'u clywed hefyd yn helpu ein cymunedau.


Mae syniadau gwahanol yn helpu i wneud pethau'n well i bawb.

Fe wnaethoch chi ofyn i Your Vote Matters am fwy o wybodaeth am bleidleisio a democratiaeth.




Dyma fwy o wybodaeth am bleidleisio a chymryd rhan yn y ffordd mae ein cymunedau'n gweithio.

Mae yna ddolenni i fideos a mwy o dudalennau Hawdd eu Deall.




Rydyn ni'n byw mewn democratiaeth.

Mae hynny'n golygu bod ein pleidlais yn helpu i benderfynu sut caiff ein gwlad ei rhedeg.




Mae gennych chi hawl i bleidleisio os ydych chi'n ddinesydd Prydain neu'n ddinesydd rhai gwledydd eraill.



Weithiau, mae pobl sydd ag anabledd dysgu wedi methu â chael pleidleisio, ond dydy hynny ddim yn iawn.



Mae gennych chi hawl i bleidleisio. Penderfyniad yw pleidleisio.

Nid yw bod ag anabledd yn eich stopio rhag penderfynu pethau.



**Felly pam mae hi'n bwysig pleidleisio?**

**Meddyliwch amdanoch chi'ch hun.**

**Chi yw'r arbenigydd ar y ffordd rydych chi eisiau byw eich bywyd.**



**Chi ddylai wneud y penderfyniadau am yr hyn sydd orau i'ch lles chi.**




**Yng Nghymru mae yna gyfraith sy'n dweud mai chi yw'r person gorau i wybod sut rydych eisiau byw a chael eich cefnogi.**



Mae pleidleisio yn ffordd arall o wneud penderfyniadau am eich syniadau a'ch credoau.

Mae hefyd yn ffordd bwysig o helpu i wneud eich cymunedau yn well.



Mae pleidleisio mewn etholiadau wedi helpu i wneud yr holl gyfreithiau sy'n rhoi hawliau cyfartal i ni.




Ddeddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gyfraith sy'n rhoi'r hawl i ni gael tegwch, cydraddoldeb, urddas a pharch yn ein bywydau.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn y gwaith, mewn siopau, ac mewn llefydd eraill.


Deddf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998

Mae'r gyfraith hon yn golygu bod rhaid rhoi isafswm cyflog sylfaenol i bob gweithiwr. Mae wedi helpu pobl gydag anableddau gael yr arian maen nhw'n ei haeddu am y gwaith maen nhw'n ei wneud



Mae rhai pobl yn poeni am bleidleisio mewn etholiadau.

Gallai hyn fod am nifer o resymau.




Dywedir wrth rhai pobl na ddylen nhw bleidleisio oherwydd bod ganddyn nhw anabledd.

Dydy hyn ddim yn wir, mae pleidleisio i bawb.



Mae pleidleisio’n gweithio orau pan fo pawb yn y gymuned yn pleidleisio.





Mae hyn yn golygu gall lleisiau pawb gael eu clywed ynghylch pethau sy’n bwysig iddyn nhw.



Mae rhai pobl yn peidio â phleidleisio oherwydd eu bod yn meddwl nad ydyn nhw’n gwybod digon am wleidyddiaeth.



Does dim angen ichi wybod llawer am wleidyddiaeth i bleidleisio.



Meddyliwch am yr hyn sy’n bwysig i chi a’ch bywyd.



Meddyliwch am yr hyn sy'n bwysig i'ch ffrindiau, teulu a'r ardal lle rydych chi'n byw.




Gallwch ddysgu mwy am beth mae pleidiau gwleidyddol yn credu ynddo drwy fynd i'r llyfrgell neu edrych ar-lein.




Gallwch ddysgu mwy am bleidiau gwleidyddol drwy edrych ar ein hadnodd Hawdd Ei Ddeall o'r enw 'Y prif bleidiau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig'.




Siaradwch am y pethau hyn gyda'ch ffrindiau.

Gallwch ddysgu mwy gyda'ch gilydd.




Gallwch gysylltu â'ch cynghorydd neu AS lleol i ofyn cwestiynau iddyn nhw.

Maen nhw yno i'ch helpu chi.




Cofiwch:

Eich Pleidlais
Eich Llais
Eich Hawliau

mencap

Cliciwch yma i ddarllen fwy o wybodaeth am pam mae'n bwysig i pleidleisio.

My Vote My Voice

Cliciwch yma i ddarllen mwy o wybodaeth am eich hawl i bleidleisio.

Cliciwch yma i'w wylio ffilm oddi ar newyddion Channel 4 ar yr hawl i belidleisio i bobl sydd ag anabledd dysgu.




## Print bras

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn print bras arnoch chi.**

**Ebost:**

**comms@innovate-trust.org.uk**



## Braille

**Gadewch i ni wybod os oes angen gwybodaeth mewn Braille arnoch chi.**

**Ebost:**


**comms@innovate-trust.org.uk**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llyfryn hwn neu os hoffech siarad gyda ni am gynnwys y llyfryn hwn:**



**Ffoniwch ni ar:**

**02920 382 151**




**Neu ewch i'n gwefan:**

**innovate-trust.org.uk**

Innovate Trust

Hawdd ei Ddeall

Mae Innovate Trust Limited wedi'i gofrestru yng Nghymru. Rhif cofrestru'r cwmni 02493904
Mae Innovate Trust Limited yn elusen gofrestredig. Rhif y Comisiwn Elusennau 1010541
Darparwr Cymorth Achrededig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nifer ASP03-054